Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Ymgynghoriad ar Flaenoriaethau'r Chweched Senedd

Gorffennaf 2021

Er mwyn helpu i lywio ein gwaith cynllunio strategol a'n blaenraglen waith, rydym yn gofyn am eich barn chi, ar hyn o bryd, ynghylch **beth ddylai fod yn brif flaenoriaethau inni yn y Chweched Senedd (2021-2026)**. Lle bo gorgyffwrdd rhwng cylchoedd gorchwyl pwyllgorau, byddwn yn sicrhau bod materion perthnasol yn cael eu rhannu â phwyllgorau eraill.

Rydym yn awyddus i ddechrau'r gwaith hwn cyn gynted â phosibl, i sicrhau yr ystyrir eih barn yn ein cynlluniau. Rydym yn gwybod bod pobl yn cymryd seibiant haeddiannol dros yr haf, ac mae llawer o sefydliadau addysg hefyd yn torri am wyliau, felly byddwn yn cynnal yr ymgynghoriad hwn tan **dydd Gwener 17 Medi 2021** i sicrhau bod pawb yn cael cyfle i gyfrannu pan fyddant yn dychwelyd i'r gwaith. Dylid nodi ei bod yn bosibl na fydd modd ystyried ymatebion a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.

Un o'n prif flaenoriaethau yw sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu clywed yn ein gwaith. I wneud hyn mewn ffordd ystyrlon, rydym yn gwybod bod angen teilwra'r dulliau ymgysylltu, a sicrhau eu bod yn ddulliau priodol. Yng ngoleuni hynny, **nid yw'r ymgynghoriad hwn wedi'i anelu at blant a phobl ifanc**. **Yn hytrach, byddwn yn cynnal gweithgareddau gyda phlant a phobl ifanc yn yr hydref i'n helpu i ddeall eu blaenoriaethau nhw ar gyfer y Chweched Senedd**. Byddwn yn rhannu canfyddiadau'r gwaith hwn gyda holl bwyllgorau'r Senedd. Os ydych chi – neu os yw eich plentyn – o dan 16 oed ac â diddordeb mewn bod yn rhan o'r gwaith yma, anfonwch e-bost atom SeneddPlant@senedd.cymru i roi gwybod i ni. Gallwch hefyd ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost hwn i anfon eich syniadau atom o ran sut yr hoffech chi inni ymgysylltu â phlant a phobl ifanc – mae gennym lawer o syniadau ein hunain, ond mae gennym ddiddordeb hefyd yn eich syniadau chi!

Ceir gwybodaeth am ymgynghoriadau yn ein hysbysiad preifatrwydd a gofynnir ichi ddarllen yr hysbysiad yn ofalus cyn ichi gyflwyno ymateb. Gofynnir hefyd ichi ateb cwestiynau 6-8 ar ddiwedd y ffurflen hon inni allu prosesu eich ymateb yn gywir.

Mae gan y Senedd ddwy iaith swyddogol, sef Cymraeg a Saesneg. Yn unol â Chynllun Ieithoedd Swyddogol y Senedd, rydym yn gofyn ichi gyflwyno'ch ymateb yn y ddwy iaith os gallwch wneud hynny. Os na chaiff eich ymateb ei gyflwyno yn ddwyieithog, byddwn yn cyhoeddi yn yr iaith a gyflwynwyd, gan ddweud eu bod wedi dod i law yn yr iaith honno'n unig. Rydym yn disgwyl i sefydliadau eraill weithredu eu safonau neu eu cynlluniau eu hunain a chydymffurfio â'u rhwymedigaeth statudol.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch â thîm y Pwyllgor: SeneddPlant@senedd.cymru.

1. Enw:

Katie Palmer

2. Cyfeiriad e-bost:

Katie.palmer2@wales.nhs.uk

3. Ym mha rinwedd yr ydych chi'n ymateb i'r ymgynghoriad hwn (dewiswch un ateb yn unig):

Unigolyn yn ymateb mewn rhinwedd bersonol (ewch yn syth i gwestiwn 4)	☐
Unigolyn yn ymateb mewn rôl broffesiynol (ewch yn syth i gwestiwn 4)	☐
Unigolyn yn ymateb ar ran sefydliad (atebwch gwestiwn 3.1)	☒

3.1. Os ydych chi'n unigolyn sy'n ymateb ar ran sefydliad, beth yw enw'r sefydliad rydych chi'n ei gynrychioli a theitl eich swydd:

Rheolwr Rhaglen Synnwyr Bwyd Cymru a chyd-sylfaenydd ac ysgrifeniaeth ar gyfer Cynghrair Polisi Bwyd Cymru

Mae Cynghrair Polisi Bwyd Cymru yn gynghrair o sefydliadau a rhanddeiliaid sy'n datblygu a hyrwyddo gweledigaeth ar y cyd ar gyfer system fwyd Cymru. Trwy gydweithredu, ymgysylltu ac ymchwil, nod y Gynghrair yw:

- Cydgynhyrchu gweledigaeth ar gyfer system fwyd yng Nghymru sy'n cysylltu cynhyrchu, cyflenwi a bwyta, ac sy'n rhoi ystyriaeth gyfartal i iechyd a llesiant pobl a natur.
- Eirioli dros newid polisi er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng ecolegol, argyfwng iechyd y cyhoedd, a'r cynnydd mewn ansicrwydd o ran y cyflenwad bwyd.
- Sicrhau bod Cymru wedi'i chysylltu â pholisïau a chyfleoedd ymchwil y DU a'r system Fyd-eang ehangach.

Mae'r sefydliadau canlynol sy'n aelodau o'r Gynghrair wedi cyfrannu at yr ymateb hwn:

- Synnwyr Bwyd Cymru
- Y Comisiwn Bwyd, Ffermio a Chefn Gwlad
- Cynghrair Gweithwyr Tir Cymru
- Rhwydwaith Ffermio sy'n Gyfeillgar i Natur
- Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol
- Sustainable Food Places
- Consortiwm Amaethyddiaeth Drefol
- WWF Cymru
- Simon Wright, Athro Ymarfer Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ac un o sylfaenwyr Cydweithfa Bwytai Annibynnol Cymru (WIRC)
- Prifysgol Gorllewin Lloegr, Bryste (UWE)

Gallwch hefyd ddarllen y Maniffesto a baratowyd gan Gynghrair Polisi Bwyd Cymru cyn Etholiadau Senedd 2021 yma.

4. A hoffech chi gael eich ychwanegu at restr cysylltiadau'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg er mwyn derbyn diweddariadau am ein gwaith? (Dewiswch un ateb yn unig.)

Sylwer y gallwch ddad-danysgrifio trwy e-bostio SeneddPlant@senedd.cymru

Hoffwn	☒
Na hoffwn	☐

5. Beth yn eich barn chi yw'r prif flaenoriaethau neu'r materion y dylai'r Pwyllgor eu hystyried yn ystod y Chweched Senedd? Os oes modd, nodwch eich barn o ran sut y gallai'r Pwyllgor fynd i'r afael â hyn.

Gofynnir ichi ateb mewn perthynas â chymaint o'r themâu isod ag y gallwch.

Cadwch eich ymateb yn ddim mwy na 2,000 o eiriau i gyd.

Thema 1: Addysg oedran ysgol

Ar yr un pryd, mae COVID-19 wedi dangos pa mor fregus yw ein cadwyn cyflenwi bwyd, a hefyd y rôl hanfodol y mae'n rhaid i ysgolion ei chwarae o ran sicrhau maeth digonol i'n plant oed ysgol. Er gwaethaf cynnydd mawr yn nifer y plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yng Nghymru, rydym yn parhau i weld mwy o blant mewn tlodi yn colli allan ar brydau ysgol am ddim nag yn unrhyw genedl arall yn y DU. Mae'r rhwydi diogelwch a roddwyd ar waith gan y Llywodraeth i sicrhau bod teuluoedd sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cael cymorth yn ystod y pandemig, a'r addasiadau a wnaed gan ysgolion i ddarparu gwasanaeth prydau bwyd diogel, wedi bod yn hanfodol. Fodd bynnag, gyda llawer o wasanaethau prydau ysgol yn dal yn gaeth i gyfyngiadau oherwydd y rheidrwydd i weithredu'n ddiogel yng nghyd-destun COVID, ac oherwydd yr heriau sy'n cynyddu yn y gadwyn cyflenwi bwyd o ganlyniad i Brexit a'r pandemig, dylai'r pwyllgor fynd ati i ystyried y modd y gall y Llywodraeth sicrhau gwasanaeth prydau ysgol diogel a chadarn, sy'n darparu prydau bwyd cynaliadwy a maethlon i bob plentyn, ac sydd hefyd yn gofalu bod y gadwyn gyflenwi leol ehangach yn elwa.

1. Adolygiad o rôl bwyd yn y diwrnod ysgol.

- Dylai gynnwys adolygiad o'r enillion cymdeithasol ar fuddsoddiad mewn perthynas ag integreiddio meddwl polisi a deddfwriaeth ledled blaenoriaethau'r Llywodraeth, megis datblygu'r Economi Sylfaenol, y Bil Amaethyddiaeth a'r Strategaeth Bwyd Cymunedol, symud y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus yn ei flaen, a lleihau anghydraddoldebau addysgol trwy gynyddu cymhwystra a sicrhau mynediad at brydau ysgol am ddim (cinio a brecwast) sy'n dod o ffynonellau lleol a chynaliadwy.
- Dylai gynnwys sicrhau cysondeb rhwng yr adolygiad sydd ar y ffordd o Fesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009 a'r gwaith o ddatblygu'r Economi Sylfaenol Bwyd, prosesau achredu, ac o ran sicrhau bod pob cinio ysgol yn cynnwys o leiaf ddau ddogn o lysiau.
- Dylai gynnwys adolygiad o'r cynllun brecwast ysgol am ddim a'i allu i gyrraedd y plant hynny sydd fwyaf anghenus.
- Dylai ystyried y modd i ddiogelu cyflenwad bwyd plant mewn pandemigau neu argyfyngau yn y dyfodol.
- Dylai ystyried y modd y gellir monitro'r gwasanaeth prydau ysgol yn effeithiol.

- Dylai ystyried y modd y gallai'r adolygiad arfaethedig o strwythur y diwrnod ysgol a'r flwyddyn ysgol sicrhau'r profiadau bwyta gorau i blant.

2. Adolygiad o'r ddarpariaeth yn ystod gwyliau, gan gynnwys y modd y gellir hyrwyddo'r Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf i helpu i gyflawni uchelgais y Llywodraeth o leihau anghydraddoldebau. Gallai'r ystyriaethau gynnwys y canlynol:

- Y modd y gallai'r Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf gael ei hariannu a'i gweinyddu wrth symud ymlaen i ddileu'r cyfyngiadau ar ddatblygu rhaglenni o ymrwymiadau cyllido am flwyddyn
- Pa un a ddylai'r Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf ddod yn swyddogaeth statudol i Awdurdodau Lleol, yn rhan o'u dyletswydd economaidd-gymdeithasol i sicrhau bod pob plentyn y mae arno angen y ddarpariaeth yn gallu cyrchu cynllun
- Y modd y gellid helaethu'r rhaglen (ehangu'r cyrhaeddiad a'r cymhwystra, a chynnwys yr holl wyliau) i sicrhau y gellid cynnig lle i bob plentyn a fyddai'n elwa ar y rhaglen. Dylai hyn gynnwys adolygiad o'r modd y gall y rhaglen gefnogi plant sy'n agored i niwed.
- Rôl y Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf o ran cefnogi datblygiad rhaglen ysgolion cymunedol Llywodraeth Cymru.
- Pa un a ddylai'r Llywodraeth gefnogi mathau eraill o ddarpariaethau gwyliau ac adolygu effaith darparu prydau ysgol am ddim dros bob gwyliau yn ystod y pandemig.

3. Archwilio'r modd y gellir defnyddio bwyd yn y cwricwlwm newydd i sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn wybodus am fwyd ac yn cael ei baratoi i ddatblygu i fod yn ddinesydd bwyd da

Mae yna enghreifftiau gwych yn bodoli o'r modd y mae ysgolion yn defnyddio bwyd i gefnogi'r cwricwlwm – o dyfu a choginio bwyd, i gyllidebu a dysgu am gynnwys siwgr bwyd sothach neu faterion lles anifeiliaid. Fodd bynnag, mae angen yr hyfforddiant a'r adnoddau priodol ar ysgolion i sicrhau bod yr elfen hon yn cael ei darparu'n gyson ledled Cymru. Mae yna lawer o adnoddau posibl y gellid adeiladu arnynt, gan gynnwys adrannau arlwyo cynghorau ym myd addysg a thimau Deieteg. Rhestrir rhai yma:

- Y Rhaglen Sgiliau Maeth am Oes – gan gynnwys y Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf, lle mae cynorthwywyr addysgu yn cael eu hyfforddi ac adnoddau'n cael eu cysylltu â'r cwricwlwm ar gyfer llythrennedd a rhifedd
- Veg Power – https://vegpower.org.uk/ways-to-use-eat-them-to-defeat-them-in-schools/
- Mae **Tîm Ysgolion Iach** Caerdydd wedi cynhyrchu pecyn adnoddau *Power Up Your Pupils with Veg* ar gyfer athrawon, ynghyd â phecyn rhiant, Pys Plîs, i ennyn diddordeb plant ysgolion cynradd mewn llysiau
- I weld astudiaeth achos am y modd y gweithiodd arlwywyr yn y byd addysg, ysgolion, cyflenwyr a deietegwyr gyda'i gilydd yng Nghymru yn ystod Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf, gweler tudalen 23 o adroddiad Pys Plîs, sef Bwydo Ein Dyfodol
- Mae sefydliadau megis Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol, trwy'r Rhwydwaith Ffermydd Ysgolion (lleoliadau addysg sydd â da byw ac sy'n gwneud llawer

iawn mwy na dim ond cynnal ardaloedd tyfu bwyd), wedi gweithio'n ddiflino ers blynyddoedd i sicrhau bod 'addysg bwyd' yn cael ei gosod yn uwch i fyny ar agenda'r cwricwlwm. Erbyn hyn, mae'r rhwydwaith yn gallu ymfalchïo bod ganddo dros 120 o aelodau ffermydd ysgolion

D.S. Argymhellir bod y pwyllgor yn nodi'r argymhellion a wnaed yn Bwydo Ein Dyfodol (tudalen 36), sydd hefyd yn berthnasol i Thema 3.

Thema 2: Addysg bellach ac addysg uwch

Ystyried y modd i feithrin gallu addysg bellach ac uwch i ddarparu'r hyfforddiant sy'n ofynnol ar gyfer y gadwyn gyflenwi amaethecolegol i gefnogi datblygiad System Fwyd wydn

Mae angen i ni sicrhau bod addysg bwyd mewn addysg bellach ac addysg uwch, yn ei holl ffurfiau, mewn cytgord â chyd-destun sy'n newid yn gyflym. Mae'r enghraifft fwyaf amlwg i'w gweld ym myd ffermio, lle mae angen i'r sefydliadau bennu'r cyflymder trwy gynnig hyfforddiant sy'n briodol i'r math o ffermio cynaliadwy ac atgynhyrchiol y mae'n rhaid i ni ei weld yn y dyfodol ac sy'n sail i amcanion polisi LlC ar newid yn yr hinsawdd a bioamrywiaeth. Er mwyn arfogi'r genhedlaeth nesaf o ffermwyr a thyfwyr â'r sgiliau y mae arnynt eu hangen ar gyfer ffermio amaethecolegol, mae cyfuniad o hyfforddiant ymarferol ar ffermydd a dysgu damcaniaethol yn yr ystafell ddosbarth yn ofynnol.

Mae gan Gymru hanes hir a chyfoethog o ddarparu cymorth ymarferol ac yn y dosbarth i'n ffermwyr ifanc – a hynny'n bennaf trwy leoliadau addysg bellach, ac mae yna nifer o golegau ledled Cymru sy'n darparu'r dysgu cyfunol hwn sy'n gam go iawn i'r byd ffermio. Fodd bynnag, mae hyfforddiant garddwriaethol ar y lefel hon yn gyfyngedig iawn ledled Cymru, a dim ond mewn nifer bach iawn o safleoedd y mae ar gael. Un o'r rhain yw Grŵp Colegau Castell-nedd Port Talbot, ac yn arbennig ei gampws yng Ngholeg y Drenewydd, sydd bellach yn cynnig cwrs Garddwriaeth Lefel 2. Mae'r coleg yn defnyddio'r gerddi cymunedol cyfagos ar gyfer peth o'r amgylchedd dysgu ymarferol, ac mae hefyd yn arfogi tyfwyr y dyfodol â sgiliau'r 21ain ganrif trwy ddarparu cyswllt â safle peilot Amaethyddiaeth mewn Amgylchedd a Reolir, gan ddefnyddio'r dechnoleg a'r isadeiledd yn rhan o'r cwrs. Mae'r coleg hefyd yn y sefyllfa ragorol o fod â'r gallu i gysylltu garddwriaeth yn uniongyrchol â'i goleg hyfforddiant arlwyo, ei wasanaeth arlwyo ei hun ar y safle, a'i fwyty sydd ar gael i'r cyhoedd.

Ar hyn o bryd, mae Tyfu Cymru, Cynghrair Gweithwyr y Tir a Phrifysgol Caerdydd yn treialu rhwydwaith hyfforddeiaeth garddwriaeth amaethecolegol ledled Cymru, a hynny'n rhan o'r bartneriaeth Mannau Gwyrdd Gwydn sy'n cael ei chynnal gan Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol. Lleolir hyfforddeion ar ffermydd llysiau

amaethecolegol ledled Cymru, lle maent yn cael hyfforddiant a phrofiad ymarferol. Ategir hyn gan hyfforddiant damcaniaethol gan nifer o ffermwyr a hyfforddwyr gwahanol, a hynny ar-lein ac ar y ffermydd, sy'n galluogi hyfforddeion i gael dealltwriaeth eang o dyfu mewn amgylcheddau gwahanol a modelau busnes. **Rydym yn annog y pwyllgor i adolygu'r hyn a ddysgwyd o'r rhaglen beilot hon wedi i'r prosiect ddod i ben ym mis Medi 2023**

Gellid cael mwy o bwyslais ar gynhyrchu bwyd eilaidd iach a chynaliadwy i feithrin y math o sgiliau sy'n ychwanegu gwerth at ein cynnyrch amaethyddol ac sy'n cryfhau gweithgarwch economaidd lleol a chadwyni cyflenwi. Yn y cyfamser, mae angen ailwampio addysg arlwyo a lletygarwch (sy'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd gan Gymwysterau Cymru) yn gyfan gwbl er mwyn cynnig cwricwlwm mwy crwn ac iddo gyswllt agos â ffermio a chrefft bwyd, ac sy'n cydnabod bod natur bwyta allan wedi dod yn fwy anffurfiol ac yn fwy amrywiol ei natur. Mae angen plethu menter a dealltwriaeth busnes i wead yr holl gyrsiau hyn.

Thema 3: Iechyd a lles, gan gynnwys gofal cymdeithasol (i'r graddau y maent yn ymwneud â phlant a phobl ifanc)

Mae un o bob pedwar o blant oed derbyn dros bwysau neu'n ordew (Iechyd Cyhoeddus Cymru 2021) ac mae'r rhai sy'n dod o gefndiroedd tlotach yn fwy tebygol o fod yn afiach eu pwysau. Mae adroddiad Pys Plîs, Bwydo Ein Dyfodol a'r adroddiad cysylltiedig, Cyflwr y Genedl (Cymru) yn tynnu sylw at y ffaith bod cymeriant llysiau plant yn parhau i fod ymhell islaw'r cymeriant a argymhellir.

1. **Ystyried y modd i hyrwyddo'r cynllun Cychwyn Iach yng Nghymru**
   Nid yw tua 40% o'r buddiolwyr yng Nghymru yn hawlio eu talebau. Gallai'r pwyllgor ystyried y modd y mae cyrff cyhoeddus yn monitro ac yn darparu cymorth o ran derbyn talebau Cychwyn Iach yn lleol ac yn genedlaethol, ynghyd ag ystyried pa effaith y mae'r cynllun yn ei chael ar ddarparu cymorth maethol i deuluoedd ar incwm isel.
2. **Yr amgylchedd bwyd/hysbysebu**
   Disgwylir i Lywodraeth Cymru ymgynghori ar yr amgylchedd bwyd yn rhan o Pwysau Iach: Cymru Iach. Mae blaenoriaethau cynllun cyflawni Pwysau Iach: Cymru Iach ar gyfer 2021-2225 yn cynnwys gweithio gyda rhanddeiliaid i hyrwyddo marchnata cadarnhaol a chyfyngu ar hysbysebu bwydydd a diodydd afiach, ynghyd ag ymgynghori ar wybodaeth orfodol am galorïau ar gyfer y sector y tu allan i'r cartref. Ar ben hyn, mae LlC yn bwriadu gweithio gyda Llywodraeth y DU ar y modd i wella marchnata a labelu mewn perthynas â bwyd a diod babanod – mater yr ymrwymodd Llywodraeth y DU i ymgynghori arno yn 2019 ond na chafodd ei weithredu. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ailymrwymo i lansio ymgynghoriad manwl ar siopau tecawê sydd wedi'u lleoli ger ysgolion (a ohiriwyd yn flaenorol oherwydd COVID).

Thema 4: Plant a phobl ifanc

Sicrhau bod Hawliau Plant i Fwyd yn cael eu cynnal

Ar y cyd â'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, dylai'r pwyllgor ystyried y modd y gellir defnyddio Deddfwriaeth Hawliau Plant a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol i sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn cael ei Hawl i Fwyd, gan felly ddileu anniogelwch y cyflenwad bwyd i blant, yn unol â'r Nod Datblygu Cynaliadwy o Ddim Newyn erbyn 2030. Er enghraifft, a ddylai awdurdodau lleol, yn rhan o'u dyletswydd economaidd-gymdeithasol, fod yn atebol am fesur, monitro ac adrodd ar anniogelwch y cyflenwad bwyd, ac am sicrhau bod strategaethau ar waith i liniaru yn ei erbyn? Efallai yr hoffai'r pwyllgor ystyried y dystiolaeth a ddaeth i'r amlwg trwy waith ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, sef Cryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru.

Mae'r adolygiad o'r cymhwystra i gael Prydau Ysgol Am Ddim yn allweddol i sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn cael yr hawl hon, ac efallai yr hoffai'r pwyllgor ystyried ymchwil a gynhyrchwyd gan Sefydliad Bevan a'r Gynghrair Gwrthdlodi, ynghyd ag ymchwil o Sweden a gyhoeddwyd ym mis Mehefin eleni, sy'n dangos bod plant a gafodd ginio ysgol am ddim yn ystod eu holl amser yn yr ysgol gynradd wedi mynd ymlaen i gael incwm oes uwch.

Efallai hoffai'r Pwyllgor nodi gwaith ymgyrch 'of Children's Right 2 Food' a'i adroddiad diweddaraf, sef 'A Year of Children's Food' sy'n cynnwys gwaith Llysgenhadon Bwyd Ifanc Cymru ac yn olrhain y cynnydd ym mhob un o bedair Gwlad y DU o ran sicrhau Hawl Plant i Fwyd .

SUT Y DEFNYDDIR EICH GWYBODAETH

Er mwyn inni allu prosesu eich gwybodaeth yn unol â'n hysbysiad preifatrwydd, gofynnir ichi ateb y cwestiynau isod. Ni fyddwn yn gallu prosesu eich ymateb os na chaiff y cwestiynau hyn eu hateb.

6. Rydym wedi nodi ein bwriad i ymgysylltu'n ystyrlon â phlant a phobl ifanc, a hynny mewn ffyrdd priodol wedi'u teilwra, yn yr hydref. Fodd bynnag, os ydych chi'n ymateb i'r ffurflen hon ac yn iau na 13 oed, ni fyddwn ond yn gallu derbyn eich ymateb os yw eich rhiant neu warcheidwad wedi cadarnhau eich bod yn cael cyfrannu. Gallent wneud hynny drwy anfon neges e-bost at SeneddPlant@senedd.cymru.

Ydych chi'n iau na 13 oed?

Rwy'n iau na 13 oed	☐

Rwy'n 13 oed neu'n hŷn	☒

7. Dewiswch un o'r opsiynau canlynol i gadarnhau a fyddai'n well gennych i'ch enw beidio â chael ei gyhoeddi gyda'ch tystiolaeth.

Ni fyddwn yn cyhoeddi enw pobl o dan 18 oed.

Rwy'n 18 oed neu'n hŷn ac rwy'n fodlon ichi gyhoeddi fy enw gyda fy nhystiolaeth	☒
Rwy'n 18 oed neu'n hŷn a byddai'n well gennyf ichi beidio â chyhoeddi fy enw gyda fy nhystiolaeth.	☐
Rwy'n iau na 18 oed.	☐

8. Dewiswch un o'r opsiynau canlynol i gadarnhau a ydych chi wedi cael cytundeb gan unrhyw drydydd parti y cyfeirir ato yn eich tystiolaeth y cewch chi rannu gwybodaeth y gellid ei ddefnyddio i'w hadnabod, a'u bod yn deall y gellir ei gyhoeddi.

Rwy'n cadarnhau bod unrhyw drydydd parti y cyfeirir ato yn fy nhystiolaeth wedi cytuno y caf i rannu gwybodaeth y gellid ei ddefnyddio i'w hadnabod, a'u bod yn deall y gellir ei gyhoeddi	☒
Nid oes gennyf gytundeb gan un neu ragor o'r trydydd partïon y cyfeiriaf atynt yn fy nhystiolaeth.	☐
Nid wyf wedi cyfeirio at drydydd parti yn fy nhystiolaeth.	☐